Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Rebecca Evans AS,

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

22 Medi 2023

Annwyl Rebecca,

**Papurau tystiolaeth i gefnogi Cyllideb Ddrafft 2024-25**

Diolch yn fawr am eich llythyr ar 8 Medi.

Rwy'n ddiolchgar am y modd adeiladol yr ydych wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ynghylch ffyrdd y gellir gwella tystiolaeth ysgrifenedig weinidogol ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy llythyr ar 23 Mehefin.

Rwy'n croesawu eich bwriad i gadarnhau pryd y bydd Gweinidogion yn darparu eu papurau tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd cyn cylch cyllideb 2024-25. Rwyf hefyd yn ddiolchgar y bydd Pwyllgorau'r Senedd yn cael cynnig briff technegol ar y Gyllideb Ddrafft.

O ran eich cais am arwydd clir gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr hyn fyddai'n cael ei ystyried yn hanfodol i'w gynnwys mewn papurau tystiolaeth weinidogol, ni fyddai'n briodol i mi ddarparu un rhestr o gynigion heb ymgynghori â Chadeiryddion y Pwyllgorau yn gyntaf.

Er fy mod yn gweld manteision o ran datblygu templed lefel uchel ar gyfer papurau tystiolaeth, ac er fy mod yn cefnogi cydweithredu rhwng pwyllgorau i osgoi dyblygu a gorgyffwrdd mewn meysydd ffocws yn ystod craffu ar y gyllideb,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

gall fod yn anodd cyflawni dull cyson yn ymarferol, o gofio ei bod yn naturiol y bydd gan bwyllgorau flaenoriaethau a meysydd ffocws gwahanol.

Hoffwn hefyd warchod rhag datblygu templed a allai feithrin dull rhagnodol o ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig, a allai wanhau'r wybodaeth sydd ar gael i bwyllgorau unigol yn y pen draw wrth iddynt geisio dwyn penderfyniadau gwariant gweinidogol i gyfrif.

Mae'r anawsterau y mae Gweinidogion yn eu hwynebu wrth ddarparu manylion penodol ar gyfer pwyllgorau sy'n ymwneud â phob MEG yn ystod cyllideb 2024-25 yn enghraifft o hyn. Er fy mod yn cydnabod yr heriau a ddaw yn sgil amserlen cyllideb eleni, ni ddylai hyn rwystro Pwyllgorau rhag gofyn am wybodaeth fanwl yn ymwneud â phortffolios unigol gan fod hyn yn hanfodol i lywio sesiynau tystiolaeth cyhoeddus gyda Gweinidogion, yn enwedig pan fo'r amser i ymgynghori â rhanddeiliaid wedi'i gyfyngu.

Felly, rwy'n barod i archwilio ffyrdd y gellid datblygu templed, er fy mod hefyd yn cydnabod y gallai gymryd amser i sicrhau consensws ar y mater hwn a'i bod yn annhebygol y cytunir ar unrhyw newidiadau ar gyfer cylch y gyllideb sydd i ddod.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn i holl bwyllgorau'r Senedd sydd â diddordeb mewn craffu ar y gyllideb er mwyn hwyluso trafodaethau pellach, a byddaf yn codi'r mater hwn yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Cadeiryddion ar 23 Hydref.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.